SAIN TATHAN - CARTREF I'R ACADEMI DECHNEGOL AMDDIFFYN A'R PARC AWYROFOD

Annwyl Syr neu Fadam,

Bu ein gweithdai Cyfleusterau Cymunedol a Chludiant a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn hynod o ddefnyddiol i ni yn nhermau deall materion lleol a barn y gymuned ynglŷn â'r pynciau hyn. Mae'r adborth hefyd yn awgrymu eu bod nhw wedi profi'n ddefnyddiol i bobl leol, drwy eu galluogi i ddarganfod mwy am y prosiect a sut y bydd yn effeithio arnynt hwy.

Yn dilyn hyn, mae'n bleser gennym gadarnhau manylion y grwpiau buddiant sydd ar y gweill. Amlygwyd y pynciau dan sylw ar gyfer y grwpiau buddiant fel meysydd o ddiddordeb allweddol i'r gymuned leol o ganlyniad yr adborth a dderbyniwyd adeg yr arddangosfeydd cyhoeddus a gynhaliwyd haf diwethaf.

Estynnir gwahoddiad cynnes i chi fynychu un, neu'r ddau grŵp buddiant; mae'r dyddiadau a'r lleoliadau fel a ganlyn:

Pwnc	**Pryd**	**Ble**
Amgylchedd	Dydd Mawrth 24 Chwefror 18:30 – 20:30	Neuadd Gymunedol Sain Tathan, Rhodfa Glyndŵr, Sain Tathan
Lles Cymunedol	Dydd Mercher 4 Mawrth 18:30 – 20:30	Clwb Golff RAF Sain Tathan, Heol Clive, Sain Tathan

Bydd y ddau grŵp buddiant yn gyfle i dîm prosiect Sain Tathan rhannu manylion pellach ynghylch meysydd pwnc yr Amgylchedd a Lles Cymunedol (a fydd yn cynnwys cyflogaeth, diogelwch, yr amgylchedd hyfforddi, tai ac adeiladu) a chaffael barn a sylwadau'r mynychwyr ynglŷn â'r pwyntiau trafod.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn a hoffem petai chi'n manteisio ar y cyfle hwn i gymryd rhan yn yr hyn a fydd yn ôl pob gobaith yn gyfres o ddigwyddiadau diddorol a chynhyrchiol.

Roedd yna alw mawr am y gweithdai diweddar, felly er mwyn sicrhau ein bod yn medru cynnwys pawb yn y grwpiau buddiant sydd ar y gweill, a fyddech cystal â chwblhau a dychwelyd y ffurflen amgaeedig cyn gynted â phosibl erbyn 20 Chwefror 2009 fan bellaf. Gwerthfawrogwn eich ymateb mewn da bryd er mwyn i ni fedru cynllunio ar gyfer y digwyddiadau.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0845 618 0016. Gallwch hefyd yrru e-bost atom ar enquiries@st-athanconsultation.co.uk neu ysgrifennu atom yn Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (St Athan), Eagle Tower, Montpelier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

Yn gywir,

Mike Grimmel
Rheolwr Prosiect
Metrix UK

Ed Bampton
Cyfarwyddwr Prosiect Sain Tathan
Llywodraeth Cynulliad Cymru

SAIN TATHAN – CARTREF I'R ACADEMI DECHNEGOL AMDDIFFYN A'R PARC AWYROFOD

GRWPIAU BUDDIANT

Hoffwn fynychu'r grwpiau buddiant canlynol:

Amgylchedd - Dydd Mawrth 24 Chwefror ☐

Lles Cymunedol – Dydd Mercher 4 Mawrth ☐

Dyma fy manylion cyswllt:

Enw _____

Cyfeiriad_____

_____

_____

Rhif Ffôn_____

E-bost_____

Hoffwn petai modd trafod y pynciau hyn mewn mwy o fanylder adeg y grwpiau buddiant:

Dychweler at:
Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (St Athan),
Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA